**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**

**10 Mehefin 2020**

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker, Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland

[Cyfarfod Rhithiol 10.00am – 12.10pm; 12.20pm – 1.30pm]

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb wrth Dr R Heath-Davies.

**2. Datgelu buddiant**

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater(ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| Cais a Chyfeirnod | Aelod(au)/Swyddog(ion) | Gweithred |
|---|---|---|
| *Cofnodion 6(b) isod* NP/19/0361/OUT Cais amlinellol gyda phob mater yn cael eu cadw'n ôl ar gyfer 102 o unedau preswyl fforddiadwy, 8 o unedau preswyl rhanberchnogaeth a 34 o unedau preswyl marchnad agored ynghyd â mynedfa, gwaith draenio a thirweddu cysylltiedig – Tir yn Brynhir, Dinbych y Pysgod. | Cynghorydd M James<br>Cynghorydd M Evans | Buddiant personol yn hytrach na rhagfarnus. Arhosodd yr Aelodau yn y cyfarfod gan gymryd rhan lawn yn y trafodaethau dilynol. |

Atgoffwyd y Pwyllgor a'r cyhoedd gan y Swyddog Monitro bod Pwyllgor Safonau'r Awdurdod wedi rhoi goddefeb i Aelodau benodwyd gan Cyngor Sir Penfro (CSP) ar 28 Mehefin 2017 i'w galluogi i benderfynu materion yn ymwneud â CSP. Fodd bynnag, nododd nad oedd caniatáu goddefeb o'r fath ddim yn atal gweithredu unrhyw ran arall o'r Cod Ymddygiad.

**3. Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2020 a 10 Chwefror 2020 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Nodwyd bod ail baragraff Cofnod 6 ar 29 Ionawr 2020 yn cyfeirio at Ddeddf Amgylchedd (Cymru) a'r Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) fel pe baent wedi'u cyflwyno ar yr un pryd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Roedd hyn yn anghywir am fod y ddwy wedi dod i rym y flwyddyn ddilynol. Gofynnwyd felly i'r geiriau "yr un pryd" gael eu disodli gan "ddilynol".

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2020 a 10 Chwefror 2020 yn ddibynnol ar y diwygiad uchod.

**NODWYD.**

**4. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| **Rhif cyfeirnod** | **Cynnig** | **Siaradwr** |
|---|---|---|
| NP/19/0309 *Cofnod 6(a) cyfeir* | Datblygiad Un Blaned i gynnwys caban, sied, sgubor da byw, sgubor cynnyrch, toiled compost, tŷ gwydr, stondin wrth iet y fferm, a gwaredu'r clawdd i greu ardal parcio ceir (rhannol ôl-weithredol) – Lily Pond Farm, Whitewell Lane, Penalun, Dinbych y Pysgod, Sir Benfro, SA70 7RY | Cyng J Preston (Cynghorydd Sir) |
| NP/19/0361/OUT *Cofnod 6(b) cyfeir* | Cais amlinellol gyda phob mater yn cael eu cadw'n ôl ar gyfer 102 o unedau preswyl fforddiadwy, 8 o unedau preswyl | Jane Merrony – Llecyn Gwyrdd /Greenspace Dinbych-y-pysgod Liam Hopkins – |

| | | |
|---|---|---|
| | rhanberchnogaeth a 34 o unedau preswyl marchnad agored ynghyd â mynedfa, gwaith draenio a thirweddu cysylltiedig – Brynhir, Dinbych y Pysgod, Sir Benfro, SA70 8TT | Asiant |
| NP/19/0657/FUL *Cofnod 6(c) cyfeir* | Uwchraddio'r cyfleusterau presennol yn y maes parcio a'r byrddau deunydd esboniadol, a rhoi cladin ar y toiledau a chanopi'r gysgodfan – Broad Haven PCNP Car Park, Aber Llydan, Hwlffordd, Sir Benfro | Madeline Capel – gwrthwynebydd Jonathan Pickford – Asiant |

**5. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, yn amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, dyletswydd yr Awdurdod i gyflawni datblygiadau cynaliadwy, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl.

Nododd y Cyfreithiwr hefyd tra bo'r Cynllun Datblygu'n parhau yr un a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn 2010, roedd yna broses o'i adolygu wedi bod ar y gweill a bod yna Adroddiad Arolygwr terfynol nawr wedi'i dderbyn parthed yr Archwiliad i'r Amnewidyn Cynllun Datblygu Lleol (CDLl2) Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Roedd hyn yn ystyriaeth berthnasol yn cario cryn bwysau a byddai cyfeiriadau yn cael eu gwneud ato gan swyddogion yn eu hadroddiadau i'r Pwyllgor y diwrnod hwnnw. Gofynnwyd i'r Cyfreithiwr gan un Aelod i egluro'r 'Egwyddor Sandford'. Esboniodd y Cyfreithiwr nad oedd y geiriad yn y Ddeddf Amgylchedd 1995 ger ei fron a chyfeiriodd yr Aelodau at hyfforddiant blaenorol yn y mater hwnnw.

**NODWYD**

6. **Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y

ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

[Doedd y Cynghorydd A Wilcox ddim yn bresennol gydol cyflwyniad y cais canlynol ac o'r herwydd ataliodd ei bleidlais tra nad oedd y Cynghorydd P Morgan yn bresennol ar gyfer y bleidlais.]

| | | |
|---|---|---|
| (a) | CYFEIRNOD: | NP/19/0309/FUL |
| | YMGEISYDD: | J & L Reynolds & Lant |
| | CYNNIG: | Datblygiad Un Blaned i gynnwys caban, sied, sgubor da byw, sgubor cynnyrch, toiled compost, tŷ gwydr, stondin wrth iet y fferm, a gwaredu'r clawdd i greu ardal parcio ceir (rhannol ôl-weithredol) |
| | LLEOLIAD: | Lily Pond Farm, Whitewell Lane, Penalun, Dinbych-y-pysgod |

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais hwn wedi'i ohirio yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Pwyllgor i ganiatáu cynnal archwiliad safle. Ymwelodd yr Aelodau â'r safle ar 10 Chwefror 2020 a chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod hwnnw yn gynharach yn y cyfarfod. Y bwriad gwreiddiol oedd trafod y cais yn y cyfarfod ar 18 Mawrth a ohiriwyd ac roedd ystyriaeth o'r cais wedi'i ohirio oherwydd cyngor presennol y Llywodraeth yn ystod y pandemig Covid-19.

Ers mis Rhagfyr derbyniwyd gwybodaeth bellach yn ymwneud â Dadansoddiad Ôl-troed Ecolegol, cynlluniau graddfa wedi'u diwygio (diwygio lleoliad y toiled compostio), cynllun plannu/tirweddu diwygiedig, er mwyn rhanguddio'r safle o'r llecyn maes parcio a Chynllun Rheoli diwygiedig. Roedd Cytundeb Drafft S106 i glymu perchnogaeth y tir a phreswylio'r annedd i'r pwrpas arfaethedig hefyd wedi dod i law ac wedi'i ddiwygio i ddelio â phryderon ynghylch y geiriad a fyddai wedi caniatáu preswylio ar ôl ymddeoliad, yn groes i ganllaw'r OPD. Cynghorodd yr asiant bod y Cytundeb diwygiedig wedi'i anfon i swyddfeydd yr Awdurdod, ond am fod y rhain ar hyn o bryd ar gau, hysbysodd y swyddog y Pwyllgor nad oedd hi, hyd yn hyn, wedi llwyddo i ddod o hyd iddo. Gofynnwyd i'r Asiant p'un a fyddai'n bosib darparu copi arall yn y cyfamser.

Cynghorodd y swyddogion bod y dogfennau a ddaeth i law wedi delio â nifer o'u pryderon cynharach, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, a gellid gofyn am wybodaeth bellach ynghylch plannu/tirweddu ac arolwg o adar yn nythu, yn ogystal ag amod yn ei gwneud yn ofynnol i roi'r gorau i'r defnydd o'r sied at amcanion preswyl pan fyddai'r caban arfaethedig wedi'i godi.

Adroddwyd hefyd bod adroddiad terfynol yr Arolygwr ar y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig wedi'i dderbyn gan yr Awdurdod ar 13 Mai

2020, a bod hyn yn ystyriaeth berthnasol o gryn bwysau. Ond, nodwyd nad oedd newid y cyd-destun polisi o ran y cais hwn.

Ar ôl ystyried y Datblygiad Un Blaned arfaethedig yng ngoleuni'r fframwaith polisi lleol a chenedlaethol perthnasol, roedd y swyddogion o'r farn fod y Cynllun Rheoli diwygiedig a gynigiwyd yn delio â'r gofynion yn ddigonol, ac o'r herwydd roedd yn bosib cefnogi'r datblygiad arfaethedig, gydag amodau. Fodd bynnag, nodwyd yn y cyfarfod bod amod 16 wedi'i ddiwygio i ganiatáu cynnal arolwg o adar sy'n magu ar ffermdir o fewn 12 mis, yn hytrach na dros y gwanwyn/haf 2020 oherwydd y cau lawr Covid-19 angenrheidiol. Am fod yna beth dyblygu rhwng amodau 13 a 14 fel roedden nhw wedi'u gosod allan yn yr adroddiad gofynnodd y swyddog hefyd am waredu amod 13 o'r rhestr.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan y siaradwr, y Cynghorydd Jonathan Preston. Tra cydnabyddai bod byw'n gynaliadwy yn allweddol i leihau llygredd, a oedd yn angenrheidiol i ddelio â'r argyfwng hinsawdd presennol, dywedodd nad oedd yn medru cefnogi'r cais hwn er gwaethaf ei rinweddau amlwg. Cyfeiriodd at yr ymateb chwyrn ymhlith y gymuned leol ym Mhenalun mewn ymateb i waredu'r clawdd hynafol ar hyd Feidr Whitewell. Er bod yr asiant wedi cydnabod i'w gleient wneud camgymeriad trwy ei dynnu lawr heb sicrhau caniatâd cynllunio, gan gredu nad oedd yno fawr ddim rhywogaethau planhigion a'i fod mewn cyflwr gwachul, nid oedd y Cynghorydd Preston o'r farn bod anwybodaeth yn amddiffyniad a nododd bod deddfwriaeth gynllunio yn ei le i ddiogelu'r amgylchedd.  Doedd e hefyd ddim yn ystyried bod y datblygiad yn gweddu'n dda oddi fewn i ganllawiau Datblygiad Un Blaned oherwydd bod ei agosrwydd at Benalun a Lydstep yn golygu na ellid ystyried yr adeiledd preswyl yn angenrheidiol. Bwriad y ddarpariaeth hon oedd diogelu cefn gwlad agored a chefnogi ffermydd. Er ei fod yn cefnogi datblygiad cynaliadwy roedd am sicrhau fod y Pwyllgor yn gyffyrddus i dderbyn nad oedd hwn yn ddatblygiad yng nghefn gwlad agored ac nad oedd yn cyflawni bwriadau'r Parc Cenedlaethol. Yn olaf cyfeiriodd y Pwyllgor at Egwyddor Sandford a oedd yn nodi pan fyddai gwrthdrawiadau na ellid eu datrys rhwng cadwraeth a mwynder cyhoeddus mewn Parciau Cenedlaethol, rhaid i anghenion cadwraeth gael blaenoriaeth. Ychwanegodd bod Cyngor Cymuned Penalun hefyd yn gwrthwynebu'r cais.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod cadarnhaodd y Cynghorydd Preston bod pryderon y gymuned yn ymwneud â gwaredu'r clawdd a natur ôl-weithredol rhan o'r cais.

Cafodd yr Aelodau wedyn gyfle i ofyn cwestiynau i'r Asiant, Tau Wimbush, a rwystrwyd rhag annerch y Pwyllgor am ei fod wedi gwneud hynny ar achlysur blaenorol. Fe ofynnon nhw ynghylch digonolrwydd y

cyflenwad dŵr, opsiynau eraill o ran gwerthu cynnyrch heblaw wrth iet y ffarm, a fyddai'n cynyddu trafnidiaeth, a p'un a fyddai anghenion sylfaenol yr ymgeiswyr yn cael eu bodloni. Atebodd yr asiant bod yr ymgeiswyr wedi gwneud profion a'u bod yn hyderus na fyddai arnyn nhw angen dim ond canran bychan iawn o'r llif naturiol ac y byddai yno ddigon o ddŵr; doedd ganddyn nhw ddim amheuaeth chwaith y bydden nhw'n medru bodloni eu hanghenion sylfaenol, am eu bod ar hyn o bryd yn bodloni eu hanghenion bwyd, ynni a dŵr, ond ei bod yn cymryd amser i gyflenwi eu hanghenion incwm ac roedd y Cynllun Rheoli yn caniatáu ar gyfer hynny. Nododd y byddai gwerthiant wrth yr iet fferm yn caniatáu i'r ymgeiswyr gymryd mantais o nifer o safleoedd carafanau o fewn pellter cerdded, ond roedd yn sicr y byddai cyfle i werthu oddi ar geffyl a chart yn rhywbeth y byddai ei gleient wrth ei fodd yn gwneud, gan gofio am y rheolau cadw pellter cymdeithasol cyfredol. Gellid hefyd ddosbarthu trwy drydydd parti.

Aeth y swyddog yn ei flaen i esbonio bod yna beth dryswch wedi bod ynghylch gwaredu'r clawdd am nad oedd angen caniatâd mynediad i gae ar ffordd ddi-ddosbarth os nad oedd yna fodd arall o fynediad ac yn gychwynnol doedd y swyddogion ddim yn ymwybodol bod yna ffordd arall, er ei bod yn wlyb ac annos i'w thramwyo. Ychwanegodd bod yr ymgeisydd yn cynnig plannu dros 180m o glawdd newydd ac roedd hi'n fodlon y byddai hynny'n gwneud iawn am yr hyn a waredwyd. Cafodd cais ar gyfer menter wledig ei gyflwyno'n wreiddiol ond ni fedrai gynnwys preswylio a byddai rhaid rhoi rhybudd rhag-blaen o'r gwaith a fwriadwyd ac felly cafodd ei wrthod.

Gofynnodd Aelod arall a oedd Ymgynghorydd Amaethyddol yr Awdurdod wedi darparu unrhyw ddiweddariad o gofio iddo fynegi pryder yn ei ymateb cyntaf. Atebodd y swyddogion bod cyngor Ymgynghorydd Amaethyddol yn fwy perthnasol i geisiadau mentrau gwledig yn hytrach na Datblygiadau Un Blaned a'i fod ar hyn o bryd heb y gallu digonol i gyflawni gwaith ychwanegol. Roedd ei bryderon yn ymwneud â swm y llafur fyddai ei angen i greu'r incwm angenrheidiol ond byddai hyn yn cael ei fonitro yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Roedd strategaeth gadael yn rhan allweddol o'r cynllun hwn a phe na byddai'n bosib cyrraedd y targedau dro ar ôl tro, byddai'n rhaid gwaredu'r holl adeileddau o'r tir.

**PENDERFYNIAD: Y cais i'w ddirprwyo i swyddogion i'w gymeradwyo yn ddibynnol ar Ymgymeriad Unochrog i glymu'r caban/annedd a'r tir ynghyd am byth yn cael ei dderbyn o fewn tri mis ac yn amodol ar amodau'n ymwneud â natur ôl-weithredol y caniatâd, yn unol â chynlluniau, yn cynnwys y Cynllun Rheoli, preswyliad yr annedd, adroddiad monitro blynyddol, arolwg dull adeiladu, strategaeth lliniaru ysgafn, gwaredu hawliau datblygu a ganiateir, cynnyrch a werthir neu gyfnewid i'w dyfu ar y tir, gwaith ecolegol, tirweddu, plannu a chwblhau arolwg o adar tir fferm sy'n magu o fewn 12 mis.**

(b) CYFEIRNOD: NP/19/0361/OUT
YMGEISYDD: Mr C Pratt
CYNNIG: Cais amlinellol gyda phob mater yn cael eu cadw'n ôl ar gyfer 102 o unedau preswyl fforddiadwy, 8 o unedau preswyl rhanberchnogaeth a 34 o unedau preswyl marchnad agored ynghyd â mynedfa, gwaith draenio a thirweddu cysylltiedig
LLEOLIAD: Tir yn Brynhir, Dinbych-y-pysgod

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais hwn, a ystyriwyd yn ddatblygiad o bwys, wedi bod yn destun archwiliad safle gan y Pwyllgor ar 2il Medi 2019. Roedd wedi'i restru'n wreiddiol i'w benderfynu yn y cyfarfod a ohiriwyd ar 18 Mawrth 2020 ond gohiriwyd trafod y cais oherwydd cyngor cyfredol y Llywodraeth ynghylch y pandemig Covid-19.

Ers yr amser hynny, adroddwyd bod adroddiad terfynol yr Arolygwr ar ddiwygio'r Cynllun Datblygu Lleol wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod ar 13 Mai 2020, a bod hwn yn ystyriaeth berthnasol o'r pwys mwyaf. Er bod CDLl1 yn dal i fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu nes pryd bynnag y caiff CDLl2 ei fabwysiadu'n ffurfiol, roedd adroddiad y swyddogion wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r pwys oedd gan CDLl2 wrth benderfynu.

Roedd dros 120 o lythyrau wedi dod i law yn ogystal ag ychydig yn cynnig sylwadau ynghylch y cais, ac roedd y pwyntiau allweddol wedi'u talfyrru yn yr adroddiad.

Mae'r safle yn gorwedd yn rhannol oddi fewn i ddyraniad tai HS377 fel mae wedi'i ddiffinio gan y Cynllun Datblygu 1. Mae'r dyraniad yn nodi lleiafswm lefel o 60% o dai fforddiadwy ar y safle.

Roedd llawer o wrthwynebiadau yn ymwneud â cholli llecyn agored/gwyrdd. Fodd bynnag doedd safle'r cais ddim wedi'i nodi fel man agored ffurfiol, er ei ddefnyddio gan breswylwyr fel man agored anffurfiol ers peth amser. Roedd y safle wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl ers o leiaf dau gyfnod cynllun datblygu lleol ac roedd felly wastad yn debygol y byddai'r safle yn cael ei ddatblygu ar gyfer codi tai. Ar ben hynny roedd y cais yn cynnig swm digonol o fan agored, yn cynnwys llefydd chwarae a Man Chwarae Aml-ddefnydd (MChADd). Byddai llwybr cyhoeddus cylchol hefyd yn cael ei ddarparu. O ystyried yr uchod roedd y cynnig yn cael ei ystyried yn lliniaru'n effeithiol unrhyw golli man agored anffurfiol.

Roedd y ffaith bod safle'r cais yn dir amaethyddol Gradd 3a hefyd wedi'i godi gan wrthwynebwyr ond cynghorodd y swyddog bod maint y safle o dan y trothwy 20ha y byddai'n ofynnol ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru. Doedd colli tir amaethyddol ddim yn cael ei ystyried mor arwyddocaol i warantu gwrthod.

Adroddwyd nad oedd CDLl2 yn cynnwys dyraniad tai ar safle'r cais ac o'r herwydd roedd y safle yn cael ei ystyried wedi'i leoli oddi fewn i gefn gwlad. Fodd bynnag nodwyd mai'r rheswm nad oedd y safle wedi'i ddyrannu yn CDLl2 oedd am na chafodd ei gyflwyno fel datblygiad ac nid am ei fod yn cael ei ystyried yn anaddas ar gyfer ei ddatblygu. Roedd y swyddogion yn ystyried cymryd safbwynt cytbwys, y dylai'r datblygiad gael ei dderbyn mewn egwyddor o'i ystyried yn unig yng ngoleuni polisïau CDLl2 oherwydd y gyfran uchel o dai fforddiadwy oedd wedi'u clustnodi mewn ardal lle'r oedd yna angen wedi'i nodi, ac roedd o ystyriaeth berthnasol o bwys digonol i orbwyso unrhyw wyro oddi ar CDLl2.

Heb anghofio'r gwrthwynebiadau a leisiwyd, yn dilyn ystyriaeth o'r polisïau sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl1) presennol a fabwysiadwyd, adroddiad CDLl2 yr Arolygwr, polisi cynllunio cenedlaethol a phob ystyriaeth berthnasol, ystyriai'r swyddogion o gloriannu'r cynnig i ddarparu nifer sylweddol o dai newydd fforddiadwy ac eiddo preswyl marchnad agored, tra cedwir cymeriad lleol y Parc Cenedlaethol heb effeithio'n andwyol ar ecoleg na diogelwch ffordd roedd yn dderbyniol, yn amodol ar Gytundebau S106 o ran darparu unedau fforddiadwy, man agored/ MChADd/llecynnau chwarae a chyfraniad tuag at lyfrgelloedd a rhestr o amodau addas.

Nododd y swyddog bod Cymdeithas Ddinesig Dinbych-y-pysgod yn wreiddiol wedi cofrestru i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw ond ers hynny wedi gofyn yn hytrach i'w llythyr gael ei ddarllen gerbron y cyfarfod. Roedd y llythyr hwn ynghyd â nifer o e-byst gan wrthwynebwyr eraill wedi eu dosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

Y siaradwr cyntaf oedd Jane Merrony. Cynghorodd ei bod yn siarad ar ran 1043 o aelodau gweithredol Gweplyfr  Cymdeithas Diogelu Mannau Gwyrdd Dinbych-y-pysgod. Mynegodd bryder ynghylch y tryloywder a'r brys roedd hi'n ei deimlo oedd ynghlwm wrth fwrw mlaen â'r cais. Roedd hi hefyd yn cwestiynu sut y byddai'r datblygiad yn cael ei ariannu yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, yn benodol o ystyried y lliniaru oedd ei angen ar y safle, ac ofnai y byddai mwy o dai yn cael eu mynnu ar y safle ac y byddai'r datblygiad yn safle adeiladu parhaus gyda dwysedd uchel ac adeiledd annigonol.

Roedd argaeledd dogfennau ar gyfer sylwadau'r cyhoedd hefyd yn fater o bryder, am fod yna erbyn hyn 66 o adroddiadau i'w hystyried, nifer

ohonyn nhw, yn cynnwys Asesiad Effaith Tirwedd dim ond wedi'u gosod ar y wefan yn ystod yr wythnosau diweddar. Roedd hyn, meddai, yn cyflwyno elfen o godi amheuon a thwyll.

Aeth Ms Merrony yn ei blaen i nodi nad oedd unrhyw gyfeiriad yn y cais at y Pum Dull o Weithio o dan y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol roedd APC a'r Cyngor Sir wedi ymrwymo iddi, ac roedd yn teimlo bod yna ystyriaeth annigonol wedi bod o'r modd y byddai'r datblygiad yn cydymffurfio â'r ddeddf neu ei effaith ar yr amcanion lles yng Nghynllun Lles Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus. Doedd yna chwaith ddim ymwneud cymunedol wedi bod a doedd yna ddim ystyriaeth o faterion amgylcheddol tymor hir oedd yn wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Doedd yr adroddiad ddim wedi trafod yr amgylchiadau eithriadol a fyddai'n caniatáu datblygiad mor fawr a doedd yr angen i ddefnyddio tir amaethyddol Gradd 3 ddim wedi'i brofi. Dywedodd bod anghyfreithlonder wrth benderfynu, anrhesymoldeb a diffyg chwarae teg trefniadol yn galw i gwestiwn weithredoedd y cyrff cyhoeddus oedd ynghlwm. Cyfeiriodd Ms Merrony at ohebiaeth ar wahân oedd yn mynegi pryder ynghylch agweddau eraill o'r datblygiad, a materion trefniadol megis cywirdeb o gynnwys yr adroddiad a'r nifer helaeth o faterion wrth gefn, oedd heb eu datrys. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith nad oedd y tir wedi'i gynnwys yn y CDLl2 gan yr Arolygwr er gwaethaf sylwadau gan CSP, a bod yr Arolygwr yn fodlon y byddai yna ddigon o dai fforddiadwy cymwys yn Ninbych-y-pysgod tan 2031.

Yn olaf nododd bod y safle a'r man cymunedol wedi bod yn fendith yng nghanol y pandemig byd-eang. Wrth bryderu y byddai digwyddiadau o'r fath dim ond yn cynyddu oni bai bod perthynas cymdeithas â'r amgylchedd yn cael ei drafod, nododd yr effaith fuddiol o ran lles meddyliol a chorfforol yw ailgydio ym myd natur. Anogodd y Pwyllgor i gadw Brynhir fel man gwyrdd gan nodi y byddai'r gymuned yn cynnig defnydd amgen ar ei gyfer a fyddai yn unol â pholisi cyfredol. Terfynodd trwy ddweud y dylid gwrthod y cais fel na fo strategaeth CDLl2 yn cael ei danseilio a'r cynllun yn agored i gael ei herio.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan Liam Hopkins, yr asiant. Trodd yn gyntaf at statws y safle o fewn polisi cynllunio gan nodi bod y safle wedi'i ddyrannu yn CDLl1 a bod y cais yn unol â gofynion y dyraniad. Tra cydnabu nad oedd wedi'i ddyrannu yn CDLl2 doedd hyn ddim oherwydd bod y tir yn amhriodol ond gyda'r bwriad o ddarparu symbyliad i ddatblygiad. Nododd adroddiad yr Arolygwr na fyddai'r Parc Cenedlaethol yn bodloni'r angen am dai fforddiadwy ac argymhellodd bolisi i gefnogi darparu cynlluniau ar dir cyhoeddus. Roedd hwn yn gynllun o'r fath, ac roedd yr ymgeiswyr wedi ymrwymo i ymateb i'r angen am dai fforddiadwy - roedd y cynllun wedi'i gynnwys yng nghyllideb refeniw'r Cyngor a byddai polisi gosod lleol yn cael ei gyflwyno ar gyfer y safle. Felly, roedd o'r farn

bod y cais yn unol â CDLl2 a dyna oedd y casgliad a ddaethpwyd iddo yn adroddiad y swyddog hefyd.

Aeth Mr Hopkins yn ei flaen i ddweud nad oedd yr un dynodiad ecolegol ar y safle na'r un effaith andwyol wedi'i nodi yn unrhyw un o'r adroddiadau. Roedd effeithiau amgylcheddol y cais wedi eu deall a byddid yn eu lliniaru, gan gynnwys y rheiny ar y dirwedd trwy gynnwys plannu ychwanegol. Roedd yna goed arwyddocaol wedi'u nodi ac roedd y rhain wedi dylanwadu ar aliniad y fynedfa.  Tra bo'r safle o bosib yn weladwy o fannau gwahanol, byddai'n ymddangos fel estyniad bychan i gyrion y dref. Roedd y cais yn unol â nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Doedd yna ddim perygl o lifogydd a byddai draenio priodol o ddŵr brwnt a dŵr wyneb yn cael ei ddarparu. Byddai mynedfa gyhoeddus yn parhau trwy lwybr oddi amgylch ymylon y safle. Terfynodd trwy ddweud bod y datblygiad yn unol â CDLl1 a CDLl2 a byddai'n delio ag anghenion tai y dref, yn benodol tai fforddiadwy. Gofynnodd i'r pwyllgor ganiatáu'r cais.

Gofynnodd yr aelodau nifer o gwestiynau, ynghylch statws llecyn agored y safle, hyder i gyflawni, ac yn benodol y fath ganran uchel o dai fforddiadwy, cyfeiriadau'r Arolygwr at dargedau tai fforddiadwy yn cael eu cyflawni ar safleoedd eraill yn Ninbych-y-pysgod, y cyfeiriad gan wrthwynebydd at "dwyll" ac ystyriaeth o weladwyedd y safle yn y tirlun.

Atebodd y swyddog tra bo'r safle wedi'i ddefnyddio'n anffurfiol fel man agored nid oedd ganddo statws cyfreithiol fel y cyfryw. Tra bo gosod allan a dylunio'r anheddau yn faterion wrth gefn, byddai swyddogion yn cydweithio gyda'r penseiri i leihau effaith weledol y safle. Wrth droi at gyflawni ar y safle roedd y swyddogion wedi cynnal trafodaethau cyn-gyflwyno ynghylch cais y materion wrth gefn ar gyfer y safle a deallwyd bod swyddog safle wedi'i benodi i gyflawni hyn a'r un modd ar safleoedd eraill. Byddai cyfrannedd y tai fforddiadwy yn ffurfio rhan o'r cytundeb cyfreithiol a byddai unrhyw newid yn hyn o beth yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor. Cadarnhaodd y swyddog bod Adroddiad yr Arolygwr yn nodi y gallai anghenion tai fforddiadwy Dinbych-y-pysgod gael eu darparu ar safleoedd eraill a thrwy addasiadau dros gyfnod y cynllun. Yn olaf o ran y cyfeiriad at "dwyll", roedd y swyddog o'r farn bod y gwrthwynebydd yn cyfeirio at y ffaith nad oedd nifer o'r adroddiadau ar gael tan ddiwedd 2019 ond doedd hynny ddim yn golygu na ellid dilysu'r cais. Pan oedden nhw ar gael dywedodd bod sylwebyddion wedi cael gwybod ac roedd hysbysiadau wedi'u gosod ar y safle ac yn y wasg; roedd ganddyn nhw felly gyfle i wneud sylwadau.

Er gwaethaf sicrwydd y swyddog roedd rhai Aelodau yn dal yn bryderus ynghylch effaith weledol posib y safle, y dŵr rhedeg a diffyg cynllun draenio cynaliadwy, tirweddu annigonol  a'r fynedfa i'r safle o'r briffordd.

Yn ogystal y pwysau a fyddid yn ei osod ar gyfleusterau lleol megis siopau a gofal iechyd. Gwnaed cais am gyfres o ffotograffau i'w gweld fel rhan o'r cais materion wrth gefn er mwyn medru gweld y safle oddi fewn i'r tirlun. Mynegodd un Aelod y farn y byddai'r cynnig yn groes i Egwyddor Sandford.

Cadarnhaodd y swyddog y byddai unrhyw gais materion wrth gefn yn dod gerbron y Pwyllgor i'w hystyried. Cadarnhaodd hefyd bod ymgynghoriad digonol wedi digwydd trwy hysbysu eiddo cyfagos a'r rhai hynny oedd wedi dangos diddordeb cynt yn y cais yn ogystal â hysbysiadau ar y safle a hysbysiadau mewn papur newydd.

Holodd y Cyfreithiwr p'un a oedd y swyddogion, yng ngoleuni'r cyfeiriadau at y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant 2015 gan Ms Merrony, o'r farn bod y datblygiad yn cynrychioli datblygiad cynaliadwy a p'un a oedd y prosesau ymgynghori statudol a fabwysiadwyd yn cydymffurfio â'r pum ffordd o weithredu a argymhellwyd gan y Ddeddf. Cadarnhaodd y swyddogion eu safbwynt bod y datblygiad yn gynaliadwy a bod y prosesau statudol yn unol â'r Ddeddf.

Cafodd yr argymhelliad i ddirprwyo cymeradwyo'r cais ei gynnig a'i eilio. O ystyried y rhestr o amodau gofynnodd un Aelod p'un a fyddai mynediad cyhoeddus i ardal y goedwig, gwelliannau i'r llwybr troed yn y llecyn a'r posibilrwydd o rai lleiniau ar gael ar gyfer hunan-adeiladu gael eu codi wrth barhau â'r trafodaethau gyda'r ymgeisydd.

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i'r swyddogion i roi caniatâd cynllunio yn amodol ar gwblhau, o fewn tri mis, Cytundeb S106 o ran darparu tai fforddiadwy a rhanberchenogaeth, cynllun rheoli ar gyfer y llecynnau agored a chwarae, a chyfraniad tuag at lyfrgelloedd. Byddai'r cais hefyd yn ddibynnol ar amodau yn ymwneud ag amseru'r cais(ceisiadau) materion wrth gefn a datblygu yn unol â chynlluniau, materion wrth gefn, archwiliadau archeolegol, cynllun draenio, archwiliadau safle, llygredd, rheoli unrhyw nwyon, oriau gwaith, samplau o ddeunyddiau, gwaredu hawliau datblygu a ganiatawyd, gosod ceblau dan ddaear, mynediad, parcio a throi, dolenni i'r llwybrau troed presennol, cynllun tirweddu rheoli ecolegol, cynllun rheoli amgylcheddol adeiladu, cynllun rheoli adeiladu a goleuo.**

[Gohiriwyd y Pwyllgor am 10 munud]

(c) CYFEIRNOD: NP/19/0657/FUL
YMGEISYDD: Mr A Muskett
CYNNIG: Uwchraddio'r cyfleusterau presennol yn y maes parcio a'r byrddau deunydd esboniadol, a rhoi cladin ar y toiledau a chanopi'r gysgodfan
LLEOLIAD: Broad Haven Car Park, Aberllydan, Hwlffordd

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor am ei fod yn cael ei gyflwyno ar ran Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac yn cael ei ystyried yn ddatblygiad o bwys. Yn wreiddiol roedd wedi'i baratoi i'w gyflwyno i'r cyfarfod a ohiriwyd ar 18 Mawrth 2020, ond oherwydd cyngor cyfredol y Llywodraeth yn ystod cyfnod y pandemig Covid-19 bu rhaid oedi'r drafodaeth.

Adroddwyd hefyd bod adroddiad terfynol yr Arolygwr ar y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i dderbyn gan yr Awdurdod ar 13 Mai 2020 ac roedd hwn yn ystyriaeth berthnasol o gryn bwys. Fodd bynnag nodwyd nad oedd yn newid y cyd-destun polisi o ran y cais hwn.

Gofynnid am ganiatâd cynllunio i osod wyneb newydd ac ad-drefnu'r maes parcio, ail-drefnu'r lleiniau parcio, cyflawni cynllun tirweddu a phlannu brodorol ledled y safle, pwyntiau gwefru cerbydau trydan a lleiniau parcio anabl, adeileddau bwrdd arwyddion newydd, gwella'r cyfleusterau cyhoeddus presennol ac adeilad yr orsaf bwmpio, gwelliannau draenio ar y safle a chyflwyno llecyn chwarae newydd i blant a llecyn picnic a fyddai'n hyrwyddo'r safle, a oedd yn cael ei ystyried fel man 'mynediad' i ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol.

Adroddwyd bod un ymateb wedi ei dderbyn wrth y cyhoedd a oedd yn cefnogi amcanion y prosiect ond yn mynegi pryder ynghylch rhai o'r manylion. Roedd y rhain, ynghyd ag ymateb y swyddog, wedi'u gosod allan yn yr adroddiad.

Roedd y swyddogion yn ystyried bod y cynllun arfaethedig, ar sail y defnydd, dyluniad, deunyddiau, tirweddu a lliniaru ecolegol a hyrwyddo yn darparu datblygiad cadarnhaol oddi fewn i ganolfan wledig fyddai'n cyfoethogi ansawdd gweledol yr ardal hon o'r Parc Cenedlaethol. Byddai'r datblygiad yn hyrwyddo cyfleuster cymunedol cyfredol ac yn darparu datblygiad addas o ran diogelwch priffordd a thrafnidiaeth. Doedd y datblygiad ddim yn cael ei ystyried yn achosi effaith andwyol ychwanegol ar y mwynder na phreifatrwydd eiddo cyfagos. Roedd effaith andwyol posib ar ecoleg, cynefinoedd a nodweddion tirwedd ar y safle ac oddi amgylch y safle wedi'u lliniaru'n briodol. Byddai plannu brodorol a defnydd o ddeunyddiau naturiol yn hyrwyddo gwerth tirweddol y safle ac roedd pryderon draenio a llifogydd wedi'u trin mewn modd priodol. Yr argymhelliad felly oedd cymeradwyo gydag amodau.

Y siaradwr cyntaf ynglyn â'r cais hwn oedd Madeleine Capel a esboniodd ei bod hi a'i gŵr yn byw gerllaw ac o ran egwyddor yn cefnogi'r cynllun. Ond roedd o'r farn bod peth anghywirdeb yn yr adroddiad gerbron y Pwyllgor a gofynnodd am gynnwys amodau ychwanegol fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio.

Credai Mrs Capel bod yr achosion o lifogydd ar y safle yn dipyn uwch n'r hyn a nodwyd, yn fwy nag unwaith mewn 100 mlynedd, ac felly roedd y perygl i'r llecyn chwarae yn dipyn uwch. Roedd cynnydd sylweddol yn nŵr Nant Haroldston yn creu llifogydd cyson ar hyd y corstir a'r donnen. Roedd hefyd yn ymwybodol o ddau ddigwyddiad o lifogydd sylweddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf, y tro diwethaf yn 2018, pan oedd y ffordd a'r ardal hyd at lecyn chwarae'r plant o dan lifogydd. Roedd hi felly'n awgrymu adleoli'r llecyn chwarae i ymyl y maes parcio; byddai hyn hefyd yn atal teuluoedd rhag oedi mewn man oedd yn sensitif o ran bywyd gwyllt. Roedd Mrs Capel hefyd yn pryderu y byddai'r ffens a ddyluniwyd i atal plant a chŵn rhag mynd i mewn i'r afon yn dal ystlumod yn hedfan i lawr Dyffryn Haroldston ac yn atal bywyd gwyllt arall rhag cyrraedd yr afon; gofynnodd iddo gael ei ollwng o'r cynllun. Yn olaf gofynnodd am gladio'r adeilad toiled yn gyfangwbl gan gynnwys y trychiad deheuol.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan yr asiant, Jonathan Pickford, yn cyflwyno golwg gyffredinol o'r prosiect. Esboniodd iddo dderbyn cais i gynorthwyo i ail-ddylunio'r maes parcio i greu amgylchedd llawer mwy defnydd gyfeillgar. Byddai rhediad dŵr wyneb yn cael ei liniaru trwy osod mannau parcio graean athraidd a byddai'r ardal gyfan yn fwy diogel trwy gyflwyno llwybrau troed i gerddwyr a mannau croesi. Byddai pwyntiau gwefru cyflym yn cael eu cyflwyno a byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn caniatáu hyrwyddiadau i'r adeilad toiledau a oedd yn eiddo i Gyngor Sir Penfro. Byddai gwaredu rhan o'r wal yn y man croesi i'r traeth yn cynyddu gweledededd ar gyfer ac er mwyn cerddwyr. Byddai'r maes parcio hefyd yn elwa o'r byrddau arwyddion dehongli, ffyrymau eistedd, byrddau picnic, raciau beiseiclau a man chwarae. Roedd y cynigion wedi'u rhoi gerbron y gymuned a diwygiadau wedi'u gwneud i'r cynllun o ganlyniad i'w hadborth.

Wrth droi at y pryderon ynghylch llifogydd nododd yr asiant y byddai llai o ddŵr wyneb a bod traethbant draenio wedi'i ychwanegu. Doedd y man chwarae ei hun ddim yn y parth llifogydd a byddai, beth bynnag, yn cael ei ddefnyddio gan blant o dan ofal eu rhieni; byddai unrhyw berygl o lifogydd yn amlwg.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau, gan gynnwys pam fod man chwarae wedi'i gynnwys fel rhan o'r cynllun, am y byddai hyn yn golygu rhwymedigaeth cynnal ac yswiriant, ac o ran goleuo a chynnwys ffens. Roedd yr ymgeisydd hefyd yn bresennol ac atebodd yn hytrach na man

chwarae o siglenni, llithrennau ac ati byddai'r llecyn yn fwy o fan agored yn cynnwys cyfres o foncyffion isel er mwyn i blant eu dringo. Doedd dim goleuo ychwanegol yn cael ei gynnig. Atebodd y swyddogion bod y ffens wedi ei gynnwys ar argymhelliad arolwg dyfrgwn a wnaed. Ymgynghorwyd â Cyfoeth Naturiol Cymru a doedden nhw ddim wedi gwrthwynebu.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod hwn yn gynllun ardderchog ond yn cytuno y dylid cladio'r toiled cyfan ac yn ôl yr ymgeisydd roedd yr elfen hon o'r cynllun yn dibynnu ar gymeradwyaeth gan Cyngor Sir Penfro a byddai'n dibynnu ar ddyfodol yr adeilad. Roedd yna hefyd beth pryder wrth i stormydd gynyddu roedd y man chwarae wedi'i leoli mewn lle a allai ddioddef erydu a phroblemau eraill yn y dyfodol.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau (yn amodol ar luniad diwygiedig yn cael ei gyflwyno yn cynnwys cladio ar bob ochr o'r cyfleusterau cyhoeddus), Arolwg Cynefin Rhan 1 Estynedig ac Adroddiad Arolwg Moch Daear a Dyfrgwn, Asesiad Effaith Coedyddiaeth a Datganiad Dull, strategaeth clirio sensitif, Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu, cynllun ar gyfer diogelu'r ardal corsdir, ailosod unrhyw blannu a gymeradwyir pe baen nhw'n gwywo neu eu difrodi, cynllun i waredu ac atal lledaeniad rhywogaethau ymledol, manylion unrhyw oleuo allanol, diogelu llwybr dŵr a draenio dŵr wyneb.**

| | | |
|---|---|---|
| (d) | CYFEIRNOD: | NP/19/0665/FUL |
| | YMGEISYDD: | Mr J & Mrs C Evans |
| | CYNNIG: | Newid defnydd yr Anecs Mam-gu Cyswllt i Lety Gwyliau – |
| | LLEOLIAD: | Red Houses, Y Rhos, Hwlffordd |

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais hwn wedi'i ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr pan oedd yr Aelodau am gymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y swyddog. O ganlyniad mabwysiadwyd gweithdrefn 'oedi' yr Awdurdod. Roedd wedi'i restru'n wreiddiol i'w drafod yn y cyfarfod a ohiriwyd ar 18 Mawrth 2020, ond bu rhaid atal y drafodaeth oherwydd cyngor cyfredol y Llywodraeth yn ystod y pandemig Covid-19. Adroddwyd hefyd bod adroddiad terfynol yr Arolygwr ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl2) diwygiedig wedi'i dderbyn gan yr Awdurdod ar 13 Mai 2020, ac roedd hyn yn ystyriaeth berthnasol o bwys sylweddol.

Roedd estyniad i'r eiddo i'w ddefnyddio fel anecs mam-gu wedi'i ganiatáu o dan NP/13/0309/FUL. Roedd amodau wedi'u gosod wrth y caniatâd i sicrhau y byddai'n parhau'n atodiad i ddefnydd preswyl y brif annedd ac

na ddylid ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas masnachol. Roedd monitro arferol o eiddo gosod ar gyfer gwyliau wedi dangos bod yr anecs wedi’i hysbysebu ar gyfer gosod er 2018.

Roedd y safle y tu fas i unrhyw un o’r Canolfannau a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 1 ac felly yng nghefn gwlad. Roedd y CDLl yn caniatáu addasu adeiladau priodol yng nghefn gwlad ar gyfer amrediad o ddefnydd yn cynnwys gosod ar gyfer gwyliau. Wrth ystyried ceisiadau o’r fath roedd hygyrchedd i Ganolfannau yn ystyriaeth bwysig. Yn yr achos hwn roedd y safle wedi’i leoli dros gilomedr o unrhyw Ganolfan a doedd yna ddim trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal. Roedd y Cyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol yn rhestru eithriadau ble roedd cynigion datblygu yn cael eu caniatáu ond nid oedd y cynnig hwn yn cydymffurfio â’r un o’r gofynion hyn.

Ond adroddwyd nad oedd cyfeiriad oddi fewn i Bolisi 7 yn y CDLl2 tuag at Hygyrchedd CCY, ac roedd yr angen i addasiadau gael eu hystyried yn ‘hygyrch’ wedi’i ollwng. O ystyried mai dyma’r unig reswm dros wrthod a bod hyn yn unol â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol, ystyriwyd ei fod yn rheswm perthnasol arwyddocaol ddigonol i nodi newid argymhelliad o ran yr agwedd hon o’r cais.

Roedd yr adroddiad yn mynd yn ei flaen i ddweud bod y safle mewn man unig a doedd hi ddim yn debygol y byddai’r gweithgaredd a gysylltir â gosod ar gyfer gwyliau yn cael unrhyw effaith andwyol ar amwynder ar eiddo cyfagos cyhyd a’i fod yn aros yn nwylo’r ymgeiswyr. Roedd hi’n angenrheidiol felly i sicrhau y byddai’r ddau adeilad wedi’u clymu ynghyd am byth trwy Gytundeb S106 i ddiogelu mwynder preswylwyr yr annedd gysylltiedig.

Daeth y swyddogion felly i’r casgliad er bod y cais hwn yn groes i CDLl 1 oedd wedi’i fabwysiadu pan gafodd ei ystyried y tro cyntaf, roedd CDLl2 fel yr argymhellwyd yn Adroddiad yr Arolygwr yn cynnwys ystyriaeth berthnasol arwyddocaol. Yn y ddogfen hon doedd yr angen i ystyried hygyrchedd gosod ar gyfer gwyliau arfaethedig ddim wedi’i gynnwys, ac roedd yn bosib cefnogi’r cais, yn amodol ar gyflwyno cytundeb cyfreithiol ac ar yr amodau oedd wedi’u gosod allan yn yr adroddiad.

Yn y cyfarfod ymddiheurodd y swyddog am wall ar dudalen 104 o’i hadroddiad a oedd yn nodi y byddai angen cyfraniad ariannol ar gyfer tai fforddiadwy; roedd hyn yn gamddealltwriaeth o’r polisi.

Roedd yr Aelodau wedi’u plesio o weld gwaredu'r anghenraid hygyrchedd o Bolisi 7 o’r CDLl2 trwy adroddiad yr Arolygwr, ac roedd hyn wedi galluogi’r swyddogion i newid yr argymhelliad i gymeradwyaeth wedi’i ddirprwyo. Roedden nhw hefyd yn gobeithio y byddai’r ddarpariaeth yma

o lety gwyliau yn hybu'r economi lleol wrth i'r sir baratoi i ailgydio wedi'r cau lawr oherwydd y pandemig, ac roedden nhw wedi'u plesio bod y llety a ddarparwyd yn hygyrch i bobl anabl, am fod yna brinder cyfleusterau o'r fath.

Cynghorodd y Dirprwy Swyddog Monitro gan fod y cais wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor drachefn yn dilyn cyfnod o 'oedi', dylid cofnodi'r pleidleisio. Ar y cynnig i ddirprwyo'r cais i swyddogion i'w gymeradwyo yn amodol ar gyflwyno cytundeb cyfreithiol o fewn tri mis i glymu perchnogaeth y ddwy annedd ac yn amodol ar gadw'r amodau a osodwyd allan yn yr adroddiad roedd y pleidleisio fel a ganlyn:

Dros: Cynghorydd P Baker, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd P Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

Yn erbyn: Neb

Ymatal: Neb

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i swyddogion i gymeradwyo yn amodol ar gyflwyno cytundeb cyfreithiol o fewn tri mis i glymu perchnogaeth y ddwy annedd ac yn amodol ar gadw amodau yn ymwneud â defnydd gwyliau yn unig, mynediad, parcio a throi a chyflwyno cynllun priodool i hyrwyddo bioamrywiaeth.**

(e)

| | |
|---|---|
| CYFEIRNOD: | NP/20/0222/FUL |
| YMGEISYDD: | Mr T Brinicombe |
| CYNNIG: | Gosod ceblau trydan dan ddaear (yn cynnwys baeau uniadau dan ddaear bob hyn a hyn ar hyd y llwybr ac un piler cyswllt uwchben y ddaear) a cheblau ffibr optig dan ddaear; ynghyd â safle adeiladu dros dro a ffyrdd cludo deunyddiau dros dro. |
| LLEOLIAD: | Safle llinellol yn ymestyn o'r gwastadeddau tywod rhynglanw yn Freshwater West i Neath Farm, Rhoscrowdder (Llandygyman), Penfro |

Adroddwyd bod y prosiect hwn yn cynnig gosod ceblau trydan o dan ddaear a cheblau ffibr optig o dan y môr gydag uniadau yn cysylltu marchnadoedd ynni Iwerddon a Phrydain. Byddai Greenlink yn darparu cyswllt grid newydd rhwng isorsaf EirGrid's Great Island yn Swydd Wexford (Iwerddon) a Grid Cenedlaethol yn is-orsaf Penfro. Byddai'r

ynni'n medru symud ddwy ffordd yn dibynnu ar y galw a'r cyflenwad yn y ddwy wlad.

Roedd bras fanylion y cais wedi'u gosod allan yn yr adroddiad. Am ei fod yn ddatblygiad oedd yn gofyn am Asesiad Effaith Amgylcheddol, roedd wedi'i nodi fel datblygiad o bwys ac o ddiddordeb cyhoeddus, gofynnwyd i'r Aelodau i ystyried Ymweliad Safle Pwyllgor i adolygu'r safle ac oddi amgylch, cyn ystyried y cais cynllunio mewn cyfarfod maes o law. Ond oherwydd y sefyllfa bresennol o ystyried Covid-19 cynigiwyd y byddai'r ymweliad safle yn cael ei gynnal trwy ddarparu profiad ymweld rhithiol i'r Aelodau trwy ddefnyddio cyfleusterau cynadledda.

Cytunodd yr Aelodau i gynnal ymweliad safle gan nodi os nad oedd yn bosibl ymweld â'r safle yn gorfforol byddai ymweliad rhithiol o gymorth. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc nad oedd ymweliad â'r safle yn cael ei ganiatáu ar hyn o bryd ond pe bai'n bosib yn y dyfodol i'r Aelodau ymweld â'r safle, naill ai fel unigolion neu fel grŵp, yna byddai hynny yn cael ei drefnu yn ychwanegol i'r ymweliad rhithiol.

Gofynnodd un Aelod a fyddai'r ymgeisydd yn gallu darparu lluniau drôn yn hedfan dros y safle a chytunodd y swyddog i ofyn am hynny.

**PENDERFYNIAD: Y Pwyllgor i drefnu archwiliad safle rhithiol.**

[Nid oedd y Cynghorydd M Evans yn bresennol ar gyfer yr eitem ganlynol.]

**7. Apeliadau**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc am un apêl (yn erbyn penderfyniadau cynllunio wnaed gan yr Awdurdod) ynghylch newid sylweddol o ddefnydd tir i swyddfa bwcio a gwersylla dros nos ar Draeth Abereiddy, Abereiddy. Adroddwyd bod yr apêl wedi'i wrthod a bod y rhybudd gorfodaeth yn dal mewn grym. Roedd copi o benderfyniad yr Arolygwr yn glwm i'r adroddiad er gwybodaeth i Aelodau. Cynghorodd y swyddogion y byddan nhw'n parhau i fonitro'r safle.

**NODWYD.**

---

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2020 heb eu diwygio.